

HEYCOCK, LLEWELLYN ARGLWYDD HEYCOCK O DAIBACH (1905-1990), arweinydd adnabyddus mewn llywodraeth leol ym Morgannwg

Enw: Llewellyn Heycock

Dyddiad geni: 1905

Dyddiad marw: 1990

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: arweinydd adnabyddus mewn llywodraeth leol ym Morgannwg

Maes gweithgaredd: Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: D. Ben Rees

Ganwyd 12 Awst 1905 yn 9 Alma Terrace, Taibach, Port Talbot, yn fab i William Heycock, labrwr yn nociau Port Talbot, a'i wraig Mary Elizabeth (née Treharne). Ymfudodd ei hynafiaid yn niwedd y ddeunawfed ganrif o swydd Gaerwrangon a bu pedair cenhedlaeth o'r teulu yn lowyr ym maes glo Margam. Cyfrannodd nifer ohonynt i ddatblygiad y Mudiad Llafur yn Aberafan a'r cyffiniau. Gan mai Llewellyn Heycock oedd yr hynaf o chwech o fechgyn bu'n rhaid iddo adael Ysgol Eastern yn 14 mlwydd oed er mwyn helpu'r teulu yn ariannol. Cafodd waith oherwydd cysylltiadau ei ewythr Edward Heycock (marw 1938), un o arloeswyr y Blaid Lafur ym Mhort Talbot, yn Dyffryn Yard Loco Shed fel glanhawr trenau, ac yna yn danwr gyda'r GWR cyn llwyddo fel gyrrwr trenau o dde Cymru i orsaf Paddington, Llundain. Bu'n gyflogedig ar y rheilffyrdd hyd ei ymdeoliad yn 1973.

Manteisiodd yn ei oriau hamdden prin ar ddiwylliant y capel, gweithgarwch ei undeb (yr NUR), dosbarthiadau'r National Council of Labour Colleges a dosbarthiadau'r ysgol Sul. Dylanwadwyd arno gan arloeswyr y mudiad Llafur yn Nhaibach, yn eu plith Henry Davies (a fu farw yn 1927 ac y codwyd swyddfeydd Grŵp Llafur Taibach yn neuadd goffa er cof amdano), Taliesin Mainwaring, Rees Llewellyn a Robert (Bob) Williams, ymgeisydd y Blaid Lafur yn etholaeth Aberafan yn Etholiad 'Khaki' 1918. Daeth o dan gyfaredd Ramsay MacDonald oherwydd ei huoddedd fel areithydd sosialaidd, a bu dathlu mawr pan enillodd ef sedd Aberafan i Lafur oddi wrth y Rhyddfrydwyr yn Nhachwedd 1922. Fel eraill o selogion y Blaid Lafur, dadrithiwyd ef maes o law yn ei eilun.

Cymerodd Llewellyn Heycock ran amlwg yn Streic Gyffredinol 1926, yn gwerthu papurau'r chwith, yn osgoi'r heddlu ac yn cael ei ddenu i blith cangen leol y Comiwnyddion. Ond byr fu'r garwriaeth gan iddo ddog o dan gyfaredd **Aneurin Bevan**. Bu'n cadeirio cyfarfodydd y di-waith ar draeth Aberafan a chofiai 7,000 yn ymgynnull i wrando ar **Bevan**. Gwleidydd arall a fu yn ddylanwad aruthrol arno oedd **James Griffiths**. Trwy'r dylanwadau hyn a'i weithgarwch dygn mabwysiadwyd ef yn Gynghorydd Sir dros Taibach yn 1937 a bu'n cynrychioli'r gymuned hyd ei ymdeoliad yn 1977. Yn 1944 etholwyd ef yn Gadeirydd Pwyllgor Addysg Morgannwg a bu'n llywio polisiâu addysg Sir Forgannwg am 30 mlynedd. Etholwyd ef yn 1949 yn aelod o Gyd-bwyllgor Addysg Cymru a bu yn Gadeirydd arno am 11 mlynedd. Gwahoddwyd ef yr un flwyddyn i fod yn aelod o Gyngor Cymru a Mynwy a chafodd ei ailethol i'r Gyngor ar ei newydd wedd yn 1959.

Cyfraniad pwysicaf Llewellyn Heycock oedd ei arweiniad cadarn ym maes addysg ddwyieithog gynradd ac uwchradd. Credai yn ddiysgog mai hanfod diwylliant Cymru oedd yr iaith Gymraeg. Er ei fod ef yn swil i lefaru yn yr iaith yn gyhoeddus, medrai sgwrsio yn ei gartref ac ymhlith Cymry academiaidd a edmygai. Daeth ei safbwynt yn bolisi'r Pwyllgor Addysg a sefydlwyd ysgolion cynradd a rhai cyfun megis Rhydfelen. Canmolai Heycock agwedd y llywodraeth ganolog tuag at y polisiâu dwyieithrwydd, a bu'r un mor gadarn yn Llys a phwyllgor gwaith Prifysgol Cymru. Cyfrannodd yn helaeth am bron i ddeugain mlynedd i Brifysgol Cymru ac anrhydeddwyd ef pan dderbyniodd radd Doethuriaeth (er anrhydedd) yn y Gyfraith. Ef oedd pensaer pennaf y frwydr am barhad ac undod Prifysgol Cymru yn nadleuon 1964.

Uchelgais Heycock erbyn 1957 oedd dilyn W. G. Cove yn Aelod Seneddol Aberafan. Roedd ar Banel Seneddol yr NUR a phan ddaeth y cyfle, enillodd 39 o enwebiadau, gyda bargyfreithiwr 28 oed o Geredigion, John Morris, heb dderbyn ond 3 enwebiad, ond bod un ohonynt yn enwebiad Undeb y Gweithwyr Dur, asgwrn cefn economi Port Talbot. Yn y gynhadledd i ddewis ymgeisydd enillwyd yr enwebiad gan John Morris er siom aruthrol i Heycock, ac yntau yn Drysorydd Pwyllgor Gwaith yr etholaeth ers 30 mlynedd, ysgrifennydd ward Taibach ers 40 mlynedd, ac yn ŵr mwyaf adnabyddus gwleidyddiaeth Morgannwg. Ar gyngor ei briod gwrthododd bwysau ei gefnogwyr iddo sefyll fel ymgeisydd Annibynnol Llafur yn etholiad cyffredinol 1959, a chanolbwyntiodd ar ei weithgarwch mewn llywodraeth leol lle y perchid ei ymroddiad er aml i feirniadaeth am ei duedd i gefnogi yn gyhoeddus ei ffrindiau a'i deulu mewn swyddi o fewn gweinyddiaeth y Cyngor Sir.

Bu'n ffodys yn ei briod, Elizabeth Olive Rees o Felindre, Port Talbot gan ei bod hithau a'i theulu yn weithgar yn y Blaid Lafur. Priodwyd hwy ar 30 Awst 1930 yng Nghapel Presbyteriaidd Bethany, Port Talbot (capel a ddatgorffwyd yn 2009 a lle y bu ef yn flaenor fyddlon) gan gartrefu yn Conduit Place, lle yr oedd penteulu pob tŷ yn gweithio ar y rheilffordd. Ganwyd dau o feibion iddynt, Bryan yn 1932 a fu farw mewn damwain ar y ffordd yn 1958, a Clayton (ganwyd 1941) a fu yn amlwg yn ngweinyddiaeth addysg Morgannwg. Symbudodd y teulu i Llewellyn Close, Taibach tros ddegawd olaf ei fywyd, tai a stryd a elwid felly yn gydnabyddiaeth o'i gyfraniad sylweddol.

Ar ôl siom 1957 daeth nifer fawr o anrhydeddau i felysu ei fywyd, CBE yn 1959, ac yna Arglwydd am Oes ar 10 Gorffennaf 1967, i'w adnabod fel y Barwn Heycock o Taibach. Daeth i'w edmygu yn fawr yn nadleuon Tŷ'r Arglwyddi o 1967 i 1981 ond nid oes tystiolaeth yn *Hansard* iddo gymryd rhan o gwbl yn nadleuon y Tŷ ar ôl 1981. Tri phwnc a ddenai ef i siarad yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef buddiannau de Cymru (e.e. Maes Glo Margam), addysg, a llywodraeth leol lle y cydnabyddid ef yn un o'r arbenigwyr pennaf. Yn ei areithiau ar addysg, cyfeiriai hyd at syrffed at ei brofiad maith fel Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, cadeirydd chwech o bwyllgorau llywodraethwyr ysgolion cyfun, ac am record Morgannwg yn hybu'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysg y plant, a chefnogaeth i addysg oedolion, yn arbennig Coleg Harlech, lle y bu ef yn Llywydd am 30 mlynedd.

Methodd yn ei ymgyrch yn erbyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974. Rhannwyd y sir y bu ef mor bwerau ynddi yn dair sir, a throsglwyddodd ei deyrngarwch i gyngor sir newydd Gorllewin Morgannwg. Ef oedd Cadeirydd cyntaf y Cyngor (1973-5) (buasai'n Gadeirydd Morgannwg yn 1962, y gŵr cyntaf o Bort Talbot i'w anrhydeddu fel hyn) a gwelwyd newid er gwelw o fewn y sir newydd yn ei hagwedd at addysg ddwyieithog. Rhoddodd wasanaeth helaeth i addysgu ar lefel Prydeinig fel Llywydd ac aelod amlwg o'r National Association of Divisional Education Executives for England and Wales a hefyd fel Llywydd yr Association of Education Committees for Great Britain. Ni chafodd yr un cynghorydd arall yr anrhydedd dwbl hwn. Bu hefyd yn 1976 yn Llywydd, wedi bod yn aelod o'r pwyllgor Gwaith am rai blyblyddoedd y Welsh Association of County Councils ac arweiniodd y corff hwn a mwyafrif y cynghorwyr i wersyll y gwrth-ddatganolwyr. Perthynai i ymgyrch Neil Kinnock a Leo Abse yn y Refferendwm ar Ddatganoli yn 1979 er siom i lawer un a'i hedmygai am ei agwedd iach at y Gymraeg mewn addysg ac yn y bywyd cyhoeddus.

Bu yn arweinydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Aberafan yn 1966, a rhoddodd gefnogaeth i Gôr Meibion Aberafan a Chôr Glee Cymric. Gwaned ef yn 'Commander' Urdd Sant Ioan yn 1967. Gwnaeth gyfraniad helaeth i fro ei febyd, fel prif ysgogydd prynu Parc Margam, a phrynu cae rygbi ar gyfer Clwb Rygbi Aberafan. Roedd rygbi yn bwysig iddo. Bu'n gadeirydd clwb rygbi Aberafan ac yn Llywydd clwb rygbi Taibach; teithiai i weld Cymru'n chwarae yn Ffrainc a'r Iwerddon.

Derbyniodd ryddfrait bwrdeisdref Port Talbot yn 1962, gyda chyn Glerc y Dref, William King-Davies, y ddau ohonynt yn gyn-ddisgylbion ysgol Eastern. Lluniodd y cerflunydd Paul Thomas, Y Barri, benddelw ohono yn 1977 pan ymdeolodd o fywyd llywodraeth leol a'i osod yn yr Orangeri, Parc Margam.

Yr oedd ŵr unplyg, dygn a dwys ei grefydd; yn gadarn ei argyhoeddiadau Calфинаidd, yn ddirwestwr ac yn wrth-ysmygwr, a gredai yn sancteiddrwydd Dydd yr Arglwydd, ac yn hynod o ddrwgdybus o'r cyfryngau torfol. Anaml yr ymddangosai ar y teledu. Bu beirniadu cyson arno gan y *Western Mail*, a thefild llysnafedd ato gan gylchgrawn *Y Gweriniaethwr*, ond teimlai gohebydd y *Times*, Trevor Fishlock, fod llawer o'r gwrthwynebiad yn tarddu o genfigen a snobyddiaeth at lwyddiant un a ddaeth o gefndir llwm y dosbarth gweithiol.

Mwynhaodd ei ymdeoliad o lywodraeth leol, gan fyw y drws nesaf i'w fab a'i deulu ac ymhlith pobl y bu ef yn eu gwasanaethu mor egniol yn Nhaibach, gan ddal i gefnogi Clwb Ieuencid Taibach a bod yn Ysgrifennydd Cangen Taibach o'r Blaid Lafur. Bu farw yn Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd ddydd Mawrth, 13 Mawrth 1990 a bu'r arwyll ddydd Sadwrn, 17 Mawrth yn Eglwys Anglicanaidd St Theodores, Port Talbot ac yna yn Amlogfa Margam.

Awdur

D. Ben Rees

Ffynonellau

Arglwydd Heycock, 'Post Impressions', *South Wales Evening Post*, 27 Hydref 1982

A. L. Evans, *The Story of Taibach and District* (1982), 221-2

Herbert Williams, 'A Peer who helped to 'set the people free'', *South Wales Echo*, 3 Mehefin 1969

David Hughes, 'Lord Heycock - the man and his image', *Western Mail*, 4 Mai 1977

Trevor Fishlock, 'Welsh local government issues loses a Labour Baron', *The Times*, 24 Mai 1977

Gwybodaeth gan ei fab Clayton Heycock, Taibach, llythyr 11 Rhagfyr 2009

Ymchwil ac adnabyddiaeth bersonol dros gyfnod o 20 mlynedd

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: "Llewellyn Heycock

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [heycock-llewellyn-1905-1990](#)

Wikidata: [Q6662070](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2010-09-14

Hawffraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Rees, D. B., (2010). HEYCOCK, LLEWELLYN ARGLWYDD HEYCOCK O DAIBACH (1905-1990), arweinydd adnabyddus mewn llywodraeth leol ym Morgannwg. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 17 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c7-HEYC-LLE-1905>

Yr Argraffwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government